

Cofion a Chyfarchion

- Yr ydym yn parhau i gofio yn ein gweddïau am y rhai sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn. Yn Ysbyty Glan Clwyd mae Dilys Vaughan (Saron) gafodd lawdriniaeth y penwythnos diwethaf yn dilyn anffawd, a hefyd Gwyneth Rawson (Llanfair) sy'n parhau i gael gofal yno. Mae Gwyn Jones (Peniel) hefyd yn parhau yn yr Inffirmari, fel ag y mae Gwenllian Jones (Henllan) yn Ysbyty Gymunedol Yr Wyddgrug. Cofiw'n eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd hefyd. Cyflwynwn y cleifion oll i ofal yr Arglwydd gan weddio y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd llwyr a buan ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau i Lowri Gwyn Rossington (Llanfair) a Ryan ar enedigaeth merch fach, Nansi Lloyd. Dymunwn fendith Duw ar y teulu bach, a hyderwn y caiff y ddwy ddod adref o'r ysbyty yn fuan.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Peter Jones (Groes) fydd yn dathlu penblwydd arbennig dydd Mawrth nesaf! Diolchwn i Dduw amdano, gan hyderu y bydd yn parhau i gael nerth ac iechyd.

I ddod

- **BYW A DWEUD** – Diwrnod i'n harfogi a'n hysbrydoli i rannu ein ffydd ag eraill gyda Mike Adams, Chloe Richards a Dai Hankey yn Eglwys Crist, Y Bala dydd Sadwrn, Mawrth 10fed. Croeso i ieuencid 15+ ac oedolion o bob oed. Cost y diwrnod, gan gynnwys cinio ysgafn yng Ngholeg y Bala, fydd £10 (os mewn addysg) neu £15 (os mewn gwaith). Mae'n bosib cofrestru ar-lein trwy fynd i dudalen 'Byw a Dweud' ar wefan souledoutcymru.net, neu cysylltwch â Choleg y Bala (01678 520565).
- **CYMDEITHAS CAPEL SARON** – Noson gyda Wil Tân yng Nghlwb Rygbi Dinbych, nos Sadwrn, Mawrth 24ain. Tocyn £10 yn cynnwys bwyd. Tocynnau ar gael gan aelodau'r capel neu Emyr Rees (01745) 550261.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yng Nghydweli yn 2018 a hynny rhwng Ebrill 2il – 5ed gyda phrif weithgareddau'r ŵyl yn cael eu cynnal yng Nghanolfan y Dywysoges Gwenllian yng Nghydweli a'r llety yn cael ei ddarparu yn y Carmarthen Bay Holiday Park ychydig filltiroedd i ffwrdd. Ewch i'r wefan www.llanw.org am fwy o fanylion a ffurflen archebu.
- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Ebrill 7fed-12fed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: www.wordaliveevent.org
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Noson Gymdeithasol yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fercher, Ebrill 11eg **am 7.00** yng nghwmni Elin Bryn Williams. Darperir lluniaeth ysgafn am bris rhesymol.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 25^{ain} Chwefror 2018

Darlleniad y Dydd

Rhufeiniaid 8:12-17

(BCND tud.172 / BCN tud.157)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i'r oedfaon ar draws Bro Aled. Dowch i ni ddod at yr Arglwydd heddiw a thafu ein beichiau arno fo, yr un sy'n rhoi gorffwys i'n hysbryd a rhyddid i'n henaid.

Mae pawb wedi bod yno. Rydych chi'n rhan o gymdeithas neu glwb neu griw o bobl a rhywsut, mae gennych chi ryw gyfrifoldeb neu'i gilydd: gwneud y bwyd, trefnu'r blodau, llogi'r neuadd. Mae'n beth da ar y cychwyn, ond ar ôl ychydig o amser mae'r awydd yn cychwyn pylu ac yn troi i reidrwydd. Mae'r brwdfrydedd oedd yna ar y cychwyn wedi diflannu ac mae'r gwasanaethu'n troi'n faich: "O diar, rhaid i mi drefnu hwn a'r llall cyn nos Fawrth ond 'sgeni'm 'mynedd." Wedyn, wrth i amser fynd heibio, mae'r baich yn gallu troi yn garchar. Mae'r teimlad yna o reidrwydd wedi dod yn orfodaeth a straen. Efallai ein bod ni'n teimlo wedi ein caethiwo i beidio gadael pobl eraill i lawr, neu'n teimlo'n gaeth i'r achos a bod dim ffordd call allan o'r sefyllfa.

Er fod y darlun yma'n berthnasol i lawer o gymdeithasau neu glybiau, mi all fod yn wir yn ein bywyd ni. Rydym ni'n teimlo wedi ein cau i mewn i sefyllfa neu ffordd o fyw. Rydym ni'n gwybod fod rhaid i ni ddianc, ond methu'n lân a meddwl sut i wneud hynny. Dewch i ni droi efo'n gilydd i weld beth sydd gan Paul i ddweud am y sefyllfa yma yn Rhufeiniaid 8 a'r gobaith melys mae'r Ysbryd Glân yn ei gynnig i ni.

"Dydy'r Ysbryd Glân dŷn ni wedi'i dderbyn ddim yn ein gwneud yn gaethweision ofnus unwaith eto." Ysbryd o ryddid ydy'r Ysbryd Glân, nid un o gaethiwed. Mae Duw yn ein rhyddhau ni o garchar pechod, ein carchar ni, i mewn i ryddid Gras Duw. Os rhown ein bywyd i ofal yr Arglwydd, fe gawn ein mabwysiadu i'w deulu o – nid yn rhyw blant ofnus sy'n codi cywilydd, ond yn blant breintiedig.

Oherwydd Gras Duw, does dim rhaid i ni fyw yn gaeth i ddisgwyliadau pobl eraill. Fel Cristnogion, yr unig beth sydd raid i ni ei wneud ydy derbyn rhodd Duw! Mae Iesu wedi ein rhyddhau ni o afael ein beichiau, ofnau a'n heuogrwydd. Wrth dderbyn gwahoddiad yr Arglwydd, gallwn ddod ato fo fel plentyn yn galw ar ei dad "Abba Dad", neu 'dadi' fel y buasai plentyn yn galw arno.

Beth sy'n ein rhwystro rhag dod ato fo heddiw? Beth sy'n ein rhwystro rhag blasu'r rhyddid yna o gael ein derbyn fel yr ydym, heb faich o orfodaeth?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

Darlleniad Wythnos Nesaf

Salm 130 (BCND tud.567 / BCN tud.518)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 25^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 27^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Mercher – 28^{ain} ➤ **Torri Syched y dynion** – seiat yn Heulfryn am 7.30.
- **Torri Syched y merched** – seiat am 7.30 (*Ileoliad i'w gadarnhau*).
- Iau – 1^{af} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- Sadwrn – 3^{ydd} ➤ **Ysgol Sadwrn DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ am 10.00.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 25^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 25^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Rhaghysbys ➤ Yn ystod y gwasanaeth yng Nghefn Berain bore Sul, Mawrth 11eg, bydd yr eglwys yn gofyn, trwy bleidlais gudd, farn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 25^{ain} ➤ Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Saron ac ym Mheniel am 10.00. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 25^{ain} ➤ Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 28^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) HEDDIW (25ain), os gwelwch yn dda.
- Iau – 1^{af} ➤ Bydd Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn y Festri am 7.30.
- Gwener – 2^{il} ➤ Cynhelir Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Llansannan yn y Festri am 7.00. Enwau i Aneurin (870618) neu Dylan (870286) erbyn dydd Mawrth, Chwefror 27ain, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Nantglyn **am 10.00.**

Henllan a Groes

- Sul yma – 25^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod yno am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00 a bydd Mr Gwydion Lewis yn arwain oedfa yno am 2.00.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Yng Nghapel Henllan, bydd yr Ysgol Sul am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Undebol am 2.00 gyda Rhodri yn pregethu. Bydd paned i ddilyn.

Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.